CYPE(6)-07-21 – Papur i'w nodi 2

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

15 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu am 36ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig y byddaf yn ei chynnal yng Nghymru yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Cynhelir yr Uwchgynhadledd mewn fformat hybrid, gyda chynrychiolwyr yn mynychu'n rhithwir ac yn bersonol. Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r cyfle arferol am ddiweddariad cyffredinol ar faterion, bydd yr Uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar gefnogi addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn cymunedau Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd (IML).

Cyn yr Uwchgynhadledd bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cynnal trafodaeth rithwir i Weinidogion ar gaffael Ieithoedd IML yn y blynyddoedd cynnar.

Bydd hysbysiad yn cael ei gytuno gan y Cyngor yn yr Uwchgynhadledd yn cynnwys manylion y trafodaethau a gynhelir yn yr Uwchgynhadledd a thrafodaeth weinidogol y sector gwaith Ieithoedd IML. Byddaf yn ysgrifennu unwaith eto yn dilyn yr Uwchgynhadledd i rannu'r rhain gyda chi. Byddaf hefyd yn diweddaru'r Senedd gyda datganiad ar yr Uwchgynhadledd yr wythnos nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**